# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Preswyl Bryn y Cae ar gyfer pobl hŷn**

**Cae Bracla**
**Bracla**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 2HF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/03/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaethau Preswyl Bryn y Cae ar gyfer pobl hŷn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 37 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Mae Bryn y Cae yn gartref gofal, sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cael ei redeg ganddo.
Maent yn darparu gofal personol a llety i bobl, wedi'u lleoli mewn ardal breswyl ym Mracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cartref yn adeilad unllawr gyda thair uned ar wahân - uned gofal dementia, uned breswyl, a'r uned adsefydlu. Mae yna Unigolyn Cyfrifol sydd â throsolwg da o'r gwasanaeth ac sy'n cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddiol. Mae'r rheolwr gwasanaeth yn ei swydd ac wedi'i chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn ôl yr angen.

Mae cartref Bryn Y Cae yn darparu gofal a chymorth mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar. Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn hygyrch ac mae ganddo ardaloedd eang y tu mewn a'r tu allan. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda, ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig a gofalgar. Mae'r ffeiliau gofal yn nodi sut mae'r bobl yn hoffi i'w hanghenion gael eu diwallu, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Cynhelir gweithgareddau a phrosiectau rheolaidd ac amrywiol yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau llesiant corfforol ac emosiynol y bobl. Mae'r tîm o reolwyr yn cynnal archwiliadau ac yn goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn hapus ac yn hyderus yn eu rolau. Caiff y staff eu goruchwylio'n rheolaidd a chânt hyfforddiant. Mae'r polisïau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru, neu wrthi'n cael eu hadolygu.

## Llesiant

Mae'r bobl yn Bryn Y Cae yn cael cymorth a chyfle i gynnal rheolaeth dros eu bywydau. Mae'r cynlluniau personol yn glir, fel rheol yn cynnwys y bobl a'u cynrychiolwyr, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae datganiad o ddiben ar gael, sy'n amlinellu'r broses asesu a derbyn, natur y gwasanaeth a ddarperir, a sut i wneud cwyn. Mae ffeil gwynion yn y brif dderbynfa gyda Pholisi Cwynion a ffurflenni cwyno/canmoliaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r rheolwr yn delio â chwynion. Fodd bynnag, ni fu dim yn y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Mae systemau da ar waith i hybu iechyd corfforol ac emosiynol y bobl. Mae gan y bobl fynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ôl yr angen a cheir tystiolaeth o hyn yn ffeiliau gofal y bobl. Mae Uned Ailalluogi ar y safle, gyda mynediad at weithwyr fel Ffisiotherapyddion a Therapyddion Galwedigaethol.  Mae'r staff yn gweithio i gynnig dewis o brydau gyda bwydlen bedair wythnos sy'n amrywiol ac yn faethlon. Mae'r bobl yn gwneud awgrymiadau ar gyfer y fwydlen ac mae anghenion dietegol amgen yn cael eu hystyried. Mae bwyd, byrbrydau a diodydd ar gael yn y lolfeydd er mwyn i'r bobl allu helpu eu hunain.

Gall y staff nodi pryd y gall y bobl fod mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth. Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu cynnwys mewn cynlluniau personol ac asesiadau risg. Mae'r gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ar ddiogelu. Mae polisïau diogelu a chwythu'r chwiban ar waith. Mae'r rheolwr a'r aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall y gofynion ar gyfer rhoi gwybod am fater diogelu posibl.

Gall y bobl gyfrannu at gydberthnasau diogel ac iach, a'u mwynhau. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn gynnes ac yn gyfeillgar. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn Bryn Y Cae, ac mae'r adborth yn gadarnhaol iawn. Mae'r bobl yn cadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid drwy alwadau ffôn a llwyfannau digidol eraill. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ymwelwyr â'r gwasanaeth a gwelwyd y bobl yn mynd a dod yn rhydd. Mae mesurau diogelwch priodol ar waith megis mynd i mewn i fysellbad a llofnodi llyfr ymwelwyr. Mae'r staff yn ystyried anghenion cyfathrebu ac iaith y bobl, ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth er mwyn cadarnhau y gall ddiwallu anghenion y bobl a chyflawni eu canlyniadau. Mae'r rheolwr yn cwblhau asesiad cyn derbyn cyn penderfynu a all y gwasanaeth gefnogi anghenion pobl, a gwelsom y rhain yn y ffeiliau gofal.

Mae gan y staff gynllun cywir a chyfredol i ddarparu gofal i'r bobl. Gwelsom ffeiliau gyda chynlluniau personol a oedd yn glir ac yn cynnwys pobl sy'n aros yn y gwasanaeth, perthnasau a gweithwyr proffesiynol. Mae'r rhain yn amrywio yn dibynnu ar anghenion y bobl, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd neu wrth i anghenion y bobl newid. Cedwir cofnodion o gyfathrebu â pherthnasau yn ffeiliau'r bobl. Gwelsom fod y staff yn adnabod y bobl yn dda. Mae'r rhyngweithio'n gynnes ac yn gyfeillgar, ac mae'r adborth gan y bobl yn gadarnhaol iawn. Dywedodd un person '*Staff are marvellous…food is fabulous…I'm loving it here...I like the arts and crafts'.* Dyweddodd perthnasau wrthym '*It's lovely here…exceptional…I've seen worse hotels…staff are marvellous'*. Gwelsom fod y staff presennol yn cynnal gweithgareddau a phrosiectau ystyrlon yn y gwasanaeth. Mae ystafell weithgareddau/crefftau, salon trin gwallt, a nifer o lolfeydd eang ar gael i'w defnyddio. Mae gwaith hefyd wedi'i gwblhau ar fannau awyr agored. Cedwir cofnodion gweithgaredd dyddiol yn ffeiliau pobl. Mae digon o fwyd a dewis i ddiwallu anghenion deietegol y bobl.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da, ac mae gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill ar gael iddynt. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff, a gwelsom fod y ffeiliau'n dangos cyfraniad gan weithwyr proffesiynol eraill. Mae Polisi Meddyginiaeth yn y gwasanaeth, sydd wedi dyddio, ond yn y broses o gael ei ddiweddaru. Mae protocolau a threfniadau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ac yn briodol wedi'u sefydlu a'u harsylwi yn ystod yr ymweliad safle. Mae'r siartiau meddyginiaeth yn gywir, wedi'u llofnodi gan y staff, nid oes unrhyw fylchau ynddynt, ac maent yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan arweinwyr tîm. Cedwir tymereddau dyddiol yr ystafell feddyginiaeth a'r oergell i sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel.

Mae'r gwasanaeth yn ystyried anghenion cyfathrebu'r bobl, a chaiff ei weld yn amlwg yng nghynlluniau gofal y bobl. Mae'r gwasanaeth yn cynnig dogfennaeth gan gynnwys y datganiad o ddiben a'r canllaw ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg. Caiff staff sy'n siarad Cymraeg eu cyflogi yn y gwasanaeth ac mae eraill yn cwblhau cwrs Cymraeg ar hyn o bryd. Mae gan y gwasanaeth fynediad at gyfieithwyr mewn ieithoedd amrywiol. Mae'r arwyddion o gwmpas y cartref gofal ar ffurf llun yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Polisi Iaith Gymraeg yn ei le.

Mae Polisi Rheoli Heintiau yn y broses o gael ei ddiweddaru, ond mae Canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac asesiadau risg ar waith yn y gwasanaeth i atal heintiau gan gynnwys Covid19. Gwelsom y staff yn parhau i ddefnyddio offer diogelu personol (PPE), a gwelsom orsafoedd diheintio dwylo a PPE gyda masgiau, menig a ffedogau ar gael ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Gwelwyd mesurau rheoli heintiau ac atal eraill yn ystod yr arolygiad, megis glanhau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i'r bobl mewn lleoliad ac amgylchedd sydd â chyfleusterau ac offer sy'n hyrwyddo eu canlyniadau personol. Mae'n hygyrch ac yn ddiogel, ac mae mesurau diogelwch priodol ar waith. Mae'r amgylchedd cyffredinol yn gynnes ac yn groesawgar ac yn fawr, heb unrhyw arogleuon. Roedd ymdrechion i wneud y gwasanaeth yn gartrefol ac yn briodol i'r bobl oedd yn byw yno yn amlwg gan gynnwys lluniau, addurniadau ac eitemau synhwyraidd drwyddi draw. Mae'r ystafelloedd gwely yn lân, yn daclus ac wedi'u personoli, ac mae rhywfaint o waith ailaddurno ac adnewyddu wedi'i gynllunio yn y gwasanaeth. Mae mannau awyr agored wedi'u datblygu sy'n cynnwys trigolion a rhoddion gan y gymuned leol, yn hygyrch i'r bobl, ond yn ddiogel.

Mae aelod o staff cynnal a chadw ar y safle, ac mae arferion hylendid a lleihau risg o haint ar waith. Gwelsom gofnodion cyfredol o waith cynnal a chadw a gwasanaethu, gan gynnwys gwasanaethu'r teclynnau codi a'r gwelyau, Profion Dyfeisiau Cludadwy. Mae Asesiad Risg Diogelwch Tân a Chynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng yn eu lle. Mae'r diffoddwyr tân a diogelwch, y map llawr a'r ymarferion tân yn amlwg yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r gwaith diogelwch tân gofynnol eto yn dilyn arolygiad diogelwch tân yn y gwasanaeth ym mis Chwefror 2022, er gwaethaf y sicrwydd bod hwn ar fin digwydd yn ein harolygiad blaenorol. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac yn darparu staff sy'n ffit iawn. Cedwir gwybodaeth recriwtio yn ganolog, fodd bynnag cafwyd cadarnhad bod yr holl wiriadau rheoliadol wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl staff ac mae gwybodaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol yn ei lle. Mae hyfforddiant yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un-i-un rheolaidd ac arfarniadau blynyddol i gefnogi eu lles a'u datblygiad proffesiynol. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd eu bod yn hapus, yn hyderus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Dywedodd aelod o staff wrthym *'I''m loving it…learning all the time'.*

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth. Gwelsom fod y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth (canllaw ysgrifenedig) ar gael i'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y rhain yn briodol i'r gwasanaeth, yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd eu deall. Mae gwybodaeth arall am wneud cwynion/canmoliaeth, a mynediad at wasanaethau eraill fel Eiriolaeth, cymorth Profedigaeth, a gwasanaethau cymdeithasol yn amlwg.

Mae'r darparwr yn cefnogi'r staff i godi pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban. Mae polisi ar waith ac ar gael i'r staff. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn hygyrch, ac mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion o unrhyw gamau gweithredu a chanlyniadau. Mae polisïau eraill wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru, neu wrthi'n cael eu hadolygu. Cyflwynwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn y maes hwn yn dilyn ein harolygiad blaenorol, ond mae gan y darparwr bellach berson penodedig i edrych ar hyn ac mae cynnydd digonol yn cael ei wneud.

Mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth, a chymryd camau dilynol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn monitro yn y gwasanaeth ac yn rhoi cymorth da i'r tîm rheoli. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn siarad â'r bobl a'r staff yn y cartref gofal. Mae cofnodion o'r ymweliadau hyn ar gael yn y gwasanaeth ac mae tystiolaeth o argymhellion a meysydd i'w gwella. Cwblheir adolygiadau ansawdd gofal o leiaf bob chwe mis yn unol â gofynion rheoliadol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 12 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar waith, a bod y rhain yn briodol i'r bobl yn y gwasanaeth ac yn cael eu diweddaru'n barhaus. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 57 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod gwaith Diogelwch Tân yn cael ei wneud yn brydlon i leihau'r risg o dân yn y gwasanaeth | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/05/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi